## ☑ IE Rwyf/Rydym am gyfrannu

I/We would like to make a donation of ☐ £50 ☐ £100 ☐ £250 Other amount £ ______

Gwnewch sieciau yn daladwy i CUBA SOLIDARITY CAMPAIGN (Viva Educación)

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Mudiad | |
| Cyfeiriad | |
| | Côd Post |
| E-bost | |
| Ffôn | |

☐ Hoffwn hysbysu am yr apêl. Hoffwn fwy o daflenni. Maint. ______

Dychwelwch ffurflenni a thaliadau at y cyfeiriad isod. I dalu trwy gerdyn banc cysylltwch â ni ar 0207 490 5715 neu ewch at wefan www.vivaeducacion.org.uk/donate.



*“Rwy’n siwr eich bod chi’n gwybod taw y blocâd yw’r rhwystr fwyaf i ddatblygu gwasanaethau addysg yng Nghiwba, ac er bod ni wedi llwyddo cyflawni llawer, heb y blocâd byddai modd i ni wneud yn llawer mwy. Mae’n atal ni rhag prynu adnoddau allweddol ar gyfer ein hysgolion ac athrawon/athrawesau. Rydyn ni’n ymwybodol am ymgyrchoedd codi arian ar gyfer adnoddau dysgu gan yr NEU a CSC ac rydyn ni’n ddiolchgar am y fath gydlyniad sy’n hollbwysig ar yr adeg hon.”*

**Niurka Maria Gonzalez Obera**,
Ysgrifennydd Cyffredinol, Undeb Addysg Ciwba, SNTECD

Mae Viva La Educación yn fenter ar y cyd gan yr NEU, Cuba Solidarity Campaign, yr elusen Music Fund For Cuba a’r SNTECD. Mae hi’n adeiladu ar apeliadau llwyddiannus blaenorol e.e. ‘Play For Cuba’ a darparwyd mwy na 4,000 o ddarnau offer i Giwba o gynhadledd 2019 yr NEU yn Lerpwl a ‘Braille Machines For Cuba’ a ddanfonodd 45 o beiriannau i ysgolion y deillion a rhai â nam golwg.

Am fwy o fanylion cysylltwch â
VIVA LA EDUCACIÓN
d/o CSC, 33-37 Moreland Street,
Llundain/London EC1V 8BB
Ffôn +44 (0) 207 490 5715
www.vivaeducacion.org.uk
E-bost. office@vivaeducacion.org.uk

# APÊL AM GYMORTH ADDYSGIADOL I GIWBA



# CEFNOGI ADDYSG, GWRTHWYNEBU'R BLOCÂD

**Mae Viva La Educación yn brosiect blwyddyn i godi arian er mwyn prynu offer hanfodol ar gyfer ysgolion Ciwba.**

Ciwba sydd â rhai o'r ystadegau addysgiadol gorau yn America Ladin. Mae ei chyraeddiadau o ran llythrennedd ac addysg bellach yn cymharu'n dda gyda gwledydd eraill yn y rhan yna o'r byd. Ond yn aml, oherwydd blocâd yr UDA am 60 o flynyddoedd, mae myfyrwyr ac athrawon yn gorfod mynd heb lawer o'r adnoddau sylfaenol yn y dosbarth rydyn ni'n gymryd yn ganiataol.


## GADEWCH I GIWBA DDYSGU

Yn ogystal â'r myfyrwyr yn dioddef prinderau, mae athrawon/athrawesau yn wynebu cymhlethdodau wrth geisio cael eitemau er mwyn cynllunio, dysgu a rhannu gwersi. Bydd yr arian a gesglir yn prynu adnoddau addysgiadol gan eu danfon mewn cynhwysydd llong 40 troedfedd i'r ynys. Bydd y cynhwysyddion yn llawn o nwyddau angenrheidiol, o firos a llyfrau nodiadau, i bensiliau lliw a bagiau ysgol, yn ogystal â gliniaduron, geiriaduron ac offer chwaraeon.

Hefyd mae angen gwyntyllau ar gyfer dosbarthiadau, disgiau caled a ffyn côf ynghyd â pheiriannau 'Braille', offer ar gyfer anghenion addysg arbennig ac i ddisgyblion gydag anghenion addysgu arbennig, nwyddau celf a chrefft ...a llawer mwy.







Mae'r rhestr lawn o bethau angenrheidiol gan undeb addysg Ciwba (SNTECD) i'w gweld ar ein gwefan, a hefyd manylion am sut i roi cyfraniad.

> *"Mae blocâd yr UDA yn effeithio ar bob agwedd o fywyd yng Nghiwba ond mae'r amharu ar addysg plant yn arbennig o greulon. Rwy'n gobeithio fod aelodau a changhennau o'r NEU yn gallu dod yn rhan o'r ymgyrch i gefnogi Viva La Educación a'n cydathrawon/athrawesau ni yng Nghiwba gan ddangos unwaith eto bod modd i ni wneud rhywbeth ymarferol o ran helpu torri'r blocâd anghyfreithlon."*



**Daniel Kebede**, Llywydd NEU

**CEFNOGWCH NI** Gallwch chi gefnogi Viva La Educación trwy gyfrannu arian, trefnu digwyddiadau codi arian, a hysbysu am yr apêl yn eich ysgol/ gweithle/ undeb / cymuned. Manylion drosodd.